



**CRONFA ARDDANGOSWYR FFILMIAU
CANLAWIAU
2020-21**

CYFLWYNIAD

Ein cenhadaeth yw hyrwyddo sector a diwylliant ffilm cynaliadwy sy'n gweithio i bawb ledled Cymru.

Mae'r alwad agored hon yn gwahodd sinemâu annibynnol, gwyliau ffilm, sinemâu untro a sinemâu cymunedol yng Nghymru i wneud cais am gyllid o'r Gronfa Arddangoswyr Ffilmiau.

Mae Ffilm Cymru wedi cefnogi arddangos ffilmiau yng Nghymru ers 2006. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gefnogaeth hon wedi bod ar ffurf y gronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd sy'n rhoi arian blynyddol i bortffolio gwych o arddangoswyr ffilmiau, a'r rheini'n gweithio i gynnal a chynyddu eu cynulleidfaoedd drwy arloesi, drwy hyrwyddo cynhwysiant a thrwy ddilyn arferion cynaliadwy.

Wrth ymateb i bandemig byd-eang COVID-19, mae Ffilm Cymru wedi ailstrwythuro'r gronfa hon er mwyn cefnogi anghenion cyfredol arddangoswyr ffilm yn y ffordd orau, a hynny yn ystod y cyfnod hwn ei hun ac yng ngweddill y flwyddyn wrth inni ddechrau gweld cynulleidfaoedd yn dychwelyd at y sgrin fawr.

Er bod gan yr holl sector bryderon cyffredin, rydym yn deall bod pob sefydliad yn wynebu eu heriau economaidd unigryw eu hunain yn sgil pandemig Covid-19. Nod y gronfa hon yw helpu arddangoswyr ffilmiau drwy gydol 2020-21, beth bynnag fo'u gallu i sgrinio ffilmiau yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan y Llywodraeth a deddfwriaeth cadw pellter cymdeithasol.

Yn 2020-21, bydd Ffilm Cymru yn gwahodd ceisiadau ar dri achlysur yn ystod y flwyddyn. Dim ond unwaith yn ystod y flwyddyn gyllido y gall sefydliadau gyflwyno cais, felly byddem yn annog ymgeiswyr i ystyried yn ofalus pa bryd i wneud hynny.

Dyma'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau:

10 GORFFENAF 2020 (5PM)

Bydd y rownd hon yn blaenoriaethu::

- Gwyliau ffilm sy'n gobeithio darparu digwyddiadau, ar-lein neu yn y cnawd, rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2020.
- Sinemâu nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu hariannu gan Ffilm Cymru Wales ac sydd angen cyllid i helpu i dalu costau gweithredol.

Mae modd inni ystyried ceisiadau hefyd gan sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Ffilm Cymru ar hyn o bryd sydd wedi cymryd camau i gael taliadau cynnar, a phan fydd angen ychwanegol clir am gyllid i helpu gyda chostau gweithredol parhaus, ffyrdd newydd o weithio, strategaethau ailagor neu raglen sinema sydd ar y gweill.

11 MEDI 2020 (5PM)

Bydd y rownd hon yn blaenoriaethu:

- Gwyliau ffilm sy'n gobeithio darparu digwyddiadau, ar-lein neu yn y cnawd, rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr 2020.
- Sinemâu sydd angen cymorth i helpu gyda chostau gweithredol, ffyrdd newydd o weithio, costau sy'n gysylltiedig â strategaeth ailagor, a rhaglen sinema sydd ar y gweill pan fydd hynny'n briodol.

13 TACHWEDD 2020 (5PM)

Bydd y rownd hon yn blaenoriaethu:

- Gwyliau ffilm sy'n gobeithio darparu digwyddiadau, ar-lein neu yn y cnawd, rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2021.
- Sinemâu sydd angen cymorth i helpu gyda chostau gweithredol, ffyrdd newydd o weithio, costau sy'n gysylltiedig â strategaeth ailagor, a rhaglen sinema sydd ar y gweill pan fydd hynny'n briodol. Byddwn yn parhau i ystyried rhoi cefnogaeth i helpu gyda chostau gweithredol parhaus sinemâu sy'n dal i fethu agor tua diwedd y flwyddyn ariannol. Yn hyn o beth, bydd angen inni ystyried cyd-destun ariannol ehangach gwaith y sefydliad, gan gynnwys, er enghraifft, safbwynt Cyngor Celfyddydau Cymru ar roi cefnogaeth o'r fath.

Os yw'ch sefydliad chi wedi cael arian o Gronfa Mynediad i Gynulleidfaedd Ffilm Cymru, ac yn dal i gael arian o gyfanswm y swm a neilltuwyd, mae Ffilm Cymru yn gofyn ichi wneud cais am daliad cynnar (yn unol â'r newid i'r telerau yn sgil Covid-19) er mwyn rhyddhau'r cyllid hwn cyn ichi ystyried gwneud cais.

Os bydd amser yn brin a chithau'n teimlo nad yw unrhyw un o'r amserlenni uchod yn addas i'ch anghenion, cysylltwch â Ffilm Cymru i drafod gwneud cais y tu allan i'r rowndiau hyn. Mewn rhai sefyllfaoedd arbennig, os bydd y tîm gweithredol o blaid hynny, efallai y bydd yn bosibl cynnal asesiad eithriadol o'ch cais.

Mae'r alwad ar agor i geisiadau sy'n gofyn am hyd at £20,000 (hyd at 75% o gyfanswm y costau) i gefnogi gweithgarwch a fydd i'w gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol, gan ddod i ben ar neu cyn 31 Mawrth 2021.

Arian y loteri yw'r cyllid sy'n cael ei gynnig, a hwnnw wedi'i roi gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ac mae Cyngor Celfyddydau Cymru a'r BFI yn cefnogi Ffilm Cymru i reoli'r gronfa hon.

I BWY MAE'R GRONFA HON?

Mae'r Gronfa Arddangoswyr Ffilmiau yn cefnogi sefydliadau diwylliannol a grwpiau cymunedol sy'n gweithio i gynyddu mynediad i ffilm yng Nghymru. Mae'r alwad yn agored i'r rheini sy'n gyfrifol am sinemâu annibynnol, gwyliau ffilm, dangosiadau untro a sinemâu cymunedol yng Nghymru.

Nid oes modd i Ffilm Cymru gefnogi sinemâu prif ffrwd, sinemâu masnachol ac/neu mentrau cwbl fasnachol sy'n bodoli'n bennaf i greu elw.

Os yw'ch sefydliad chi wedi cael arian gan Gronfa Mynediad i Gynulleidfaedd Ffilm Cymru, ac eto i hawlio cyfanswm y swm a neilltuwyd, mae Ffilm Cymru yn gofyn ichi wneud cais am daliad cynnar (yn unol â'r newid i'r telerau yn sgil Covid-19) er mwyn rhyddhau'r cyllid hwn cyn ichi ystyried gwneud cais.

BETH YW DIBEN Y GRONFA HON?

Er bod gan yr holl sector bryderon cyffredin, mae Ffilm Cymru'n deall bod pob sefydliad yn wynebu eu heriau economaidd unigryw eu hunain yn sgil pandemig Covid-19. Nod y gronfa hon yw helpu arddangoswyr ffilmiau drwy gydol 2020-21, beth bynnag fo'u gallu i sgrinio ffilmiau yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan y Llywodraeth a deddfwriaeth cadw pellter cymdeithasol.

Rydym yn disgwyl y bydd hon yn gronfa hynod o gystadleuol, felly rydym yn annog ymgeiswyr i wneud cais am 'yr hyn sydd ei angen arnynt' yn unol â strategaeth a sefyllfa ariannol eu sefydliad hwy. Dyma rai enghreifftiau i ddangos sut y gallai'r gronfa roi cymorth i bob math o arddangoswr ffilmiau:

SINEMÂU ANNIBYNNOL (GAN GYNNWYS SINEMÂU CYMUNEDOL)

- Cymorth tuag at gostau gorbenion sinemâu, pan na fydd cynlluniau cymorth busnes y Llywodraeth yn darparu ar gyfer hynny
- Ffyrdd newydd o ymwneud â chynulleidfaoedd, gan gynnwys costau marchnata a chostau staff sy'n dal i weithio neu ddim yn gymwys i fod ar ffyrlo
- Cymorth tuag at strategaeth ailagor, gan gynnwys costau marchnata a chostau i wneud addasiadau rhesymol sy'n berthnasol i Covid-19
- Cymorth tuag at raglen sinema ar ôl ailagor os yw'n briodol fel rhan o'r cais

GWYLIAU FFILM

Naill ai:

- Cymorth tuag at gostau cysylltiedig darparu dangosiadau a digwyddiadau, naill ai yn y cnawd neu ar-lein, a hynny drwy gydol 2020-21 gan ddod i ben cyn 31 Mawrth 2021.

neu

- Cymorth i wyliau ffilm sy'n methu â chynnal dangosiadau a digwyddiadau (boed yn y cnawd neu ar-lein) yn ystod y flwyddyn, i dalu am rai o'r costau gweithredol gan gynnwys gorbenion swyddfa a chostau staff llawrydd sy'n methu gweithio, sydd ddim yn gymwys i fod ar ffyrlo, ac sy'n wynebu caledi ariannol. Rhaid i geisiadau am gyllid ar gyfer costau staff llawrydd gyd-fynd â'r symiau a gyllidwyd yn flaenorol, ac ym mhob achos ni ddylent fod yn fwy na £1,500 yr unigolyn.

COSTAU CYMWYS

FE ALLWN NI ARIANNU

- Gwaith marchnata a chyhoedduswydd sy'n gysylltiedig ag ailagor, diogelwch y gynulleidfa, ynghyd â dangosiadau ffilm naill ai ar-lein neu yn y cnauld (e.e. hysbysebion wedi'u targedu, mewn print, hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol)
- Dangosiadau a digwyddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd cyhoeddus, yn y cnauld ac ar-lein
- Trwyddedau ffilm a chludiant
- Costau staff sy'n dal i weithio neu staff sydd ddim yn gymwys i fod ar ffyrlo. Mae hyn yn golygu swyddi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu ffilmiau neu wyliau gan gynnwys rhaglennu, gweithrediadau a marchnata.
- Costau swyddfa a gorbenion
- Llogi lleoliadau, sinemâu neu gyfarpar ar gyfer dangosiadau a digwyddiadau naill ai yn y cnauld neu ar-lein
- Tanysgrifio i feddalwedd a gwasanaethau ar-lein, yn gysylltiedig â dangosiadau ar-lein a digwyddiadau
- Treuliau a chostau teithio gwirfoddolwyr
- Gweithgarwch monitro a gwerthuso, gan gynnwys ymchwil i'r farchnad
- Costau gwneud addasiadau rhesymol sy'n gysylltiedig â Covid-19 a rheolau cadw pellter cymdeithasol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a phrotocolau'r diwydiant, gan gynnwys costau diogelwch uwch, costau glanhau ychwanegol, a chostau Cyfarpar Diogelu Personol pan fydd hynny'n briodol.
- Hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr
- Costau sy'n gysylltiedig â gwella mynediad i gynulleidfaoedd (e.e. cyfleusterau crèche, lluniaeth, traf-nidiaeth)

NI ALLWN NI ARIANNU'R PETHAU HYN

- Dangosiadau yn y cnauld a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal y tu allan i Gymru
- Sefydliadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru
- Sefydliadau nad ydynt yn gallu dangos angen ariannol
- Gweithgarwch sydd eisoes wedi'i gynnal, neu nwyddau a gwasanaethau y talwyd amdanynt cyn gwneud y cais
- Gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â ffilm neu ddarluniau byw
- Cymorth tuag at wariant cyfalaf sylweddol, ail-wneud neu wella lleoliadau
- Derbyniadau diodydd ac adloniant cyffredinol, yn y cnauld neu ar-lein
- Gweithgarwch masnachol
- Rhwydweithio, hyfforddiant a chyfleoedd i wneuthurwyr ffilmiau, yn y cnauld neu ar-lein. Mae Ffilm Cymru'n cefnogi'r math hwn o weithgarwch drwy Rwydwaith Talent Cymru y BFI.
- Gweithgarwch a fyddai'n cael ei gefnogi fel arfer drwy gyllid arall neu incwm sefydliad arall.

FAINT O GYLLID SYDD AR GAEL?

Yn ystod 2020-21, bydd cyfanswm o £170,000 ar gael drwy'r Gronfa Arddangoswyr Ffilmiau.

Mae cyfyngiad o £20,000 ar bob cais a wneir bob blwyddyn, ac mae'r arian i'w roi fel grant nad yw i'w ad-dalu. Ni all y cyllid fod yn fwy na 75% o gyfanswm y gyllideb. Dylai gweddill y balans gynnwys ffynon-ellau cyllid eraill, neu incwm o'r prosiect, a gall gynnwys cymorth mewn nwyddau.

Rydym yn disgwyl y bydd hon yn gronfa hynod o gystadleuol, felly rydym yn annog ymgeiswyr i wneud cais am 'yr hyn sydd ei angen arnynt' yn unol â strategaeth a sefyllfa ariannol eu sefydliad hwy.

Rydym yn deall y bydd rhai busnesau'n gymwys i gael cymorth o dan gynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Rydym yn annog yr holl ymgeiswyr i edrych a ydynt yn gymwys ac ar ba mor addas yw pob un o'r cynlluniau hyn, ac rydym wedi crynhoi gwybodaeth ar [ein gwefan fan hyn](#).

Mae cefnogaeth benodol i'r diwydiant hefyd ar gael drwy Rwydwaith Cynulleidfaoedd Ffilm y BFI, a chefnogaeth i unigolion drwy'r Elusen Teledu a Ffilm. Mae rhagor o wybodaeth [ar gael fan hyn](#).

SUT MAE GWNEUD CAIS?

Oherwydd pandemig byd-eang COVID-19, bydd Ffilm Cymru yn gwahodd ceisiadau ar dri achlysur yn ystod 2020-21. Dim ond unwaith y gall sefydliadau gyflwyno cais yn ystod y flwyddyn gyllido hon, felly byddem yn annog ymgeiswyr i ystyried yn ofalus pa bryd i wneud hynny.

Dyma'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau:

- 10 Gorffennaf 2020 (5pm)
- 11 Medi 2020 (5pm)
- 13 Tachwedd 2020 (5pm)

Os bydd amser yn brin a chithau'n teimlo na fydd unrhyw un o'r amserlenni uchod yn addas i'ch anghenion, cysylltwch â Ffilm Cymru i drafod gwneud cais y tu allan i'r rowndiau hyn. Mewn rhai sefyllfaoedd arbennig, os bydd y tîm gweithredol o blaid hynny, efallai y bydd yn bosibl cynnal asesiad eithriadol o'ch cais.

Os yw'ch sefydliad chi wedi cael arian gan Gronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd Ffilm Cymru, ac yn dal i gael arian o gyfanswm y swm a neilltuwyd, mae Ffilm Cymru yn gofyn ichi wneud cais am daliad cynnar (yn unol â'r newid i'r telerau yn sgil Covid-19) er mwyn rhyddhau'r cyllid hwn cyn ichi ystyried gwneud cais.

1. MYNEGI DIDDORDEB

All Rhaid i bob ymgeisydd gysylltu â thîm Ffilm Cymru i gydlynu cyfarfod neu alwad ffôn i 'Fynegi Diddordeb'. Cyfle yw'r sgwrs hon i edrych ar eich prosiect yn y camau cynnar a dechrau meddwl am sut y gall eich nodau a'ch amcanion gyd-fynd ag egwyddorion sylfaenol y Gronfa Arddangoswyr Ffilmiau.

Gellir Mynegi Diddordeb unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

2. Y CAIS

Unwaith y byddwch wedi cael y sgwrs hon, bydd modd ichi gyflwyno cais. Gellir lawrlwytho ffurflenni cais o'r wefan. Bydd y cais yn cynnwys:

- Ffurflen Gais wedi'i Chwblhau
- Cyfrifon Rheoli ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf (os ydynt ar gael)
- Cyllideb y Prosiect (Incwm a gwariant arfaethedig)
- Cofrestr Risg
- Polisiâu gan gynnwys Polisi Cynaliadwyedd, Polisi Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n Agored i Niwed, a Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

I gael cymorth, cysylltwch â thîm Ffilm Cymru – mae'r manylion cysylltu isod.

BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

CYFLWYNO CEISIADAU

Rhaid cyflwyno pob cais i audience@ffilmcymruwales.com – nid oes modd inni dderbyn unrhyw geisiadau a gaiff eu hanfon i gyfeiriadau e-bost eraill neu drwy'r post.

Bydd e-bost i gadarnhau yn cael ei anfon a hwnnw'n cynnwys rhif cyfeirio a dolen i'n ffurflen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ffurflen ddiennw). Bydd angen i'r prif ymgeisydd gwblhau'r ffurflen hon er mwyn ichi gwblhau'r cais.

SUT FYDDWN NI'N GWNEUD PENDERFYNIAD?

Bydd pob cais am arian yn cael ei ystyried gan banel o aelodau Bwrdd Ffilm Cymru Wales, y Prif Weithredwr, y Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg, a'r Cydlynnydd Cynulleidfa ac Addysg. Bydd y penderfyniadau'n cael eu hanfon at Fwrdd Ffilm Cymru i gael eu hadolygu.

Rydym yn cyngori y gall y broses gymryd hyd at 6 wythnos o'r dyddiad cau.

Y CAMAU NESAF

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod drwy e-bost neu alwad ffôn. I ddilyn hyn, anfonir llythyr cynnig yn cadarnhau'r symiau ac unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol neu amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy er mwyn rhoi'r arian.

Unwaith y bydd yr amodau wedi'u bodloni, bydd Ffilm Cymru Wales yn creu cytundeb cyllido ffurflen hir, a hwnnw'n amlinellu nodau ac amcanion y cais yn ogystal â'r gofynion ac amserlenni'r prosiect, gan gynnwys sut y bydd data'n cael eu casglu, y prosesau gwerthuso, a'r telerau ad-dalu pe bai'r amodau'n cael eu torri heb wneud iawn am hynny.

Yn anffodus, ni fydd modd i Ffilm Cymru Wales ariannu pob cais a gyflwynir, ond gobeithio y gallwn roi arweiniad ac adborth ar bob cais. Mae croeso i'r rheini sydd wedi cyflwyno ceisiadau aflwyddiannus wneud cais eto yn y rownd ddilynol ar ôl cael adborth.

CWYNION, ADBORTH AC YMHOLIADAU

Os hoffech chi roi unrhyw adborth neu gwyno, mae ein gweithdrefn i'w [gweld fan hyn](#).

ADRODDIADAU

Mae'n rhaid i bob prosiect gyflwyno adroddiad terfynol o fewn dau fis i'r prosiect ddod i ben. Yn dibynnu ar hyd eich prosiect, bydd angen cyflwyno adroddiadau interim o'r swyddfa docynnau ym mis Medi, os yw hynny'n berthnasol.

Rydym yn deall bod pobl yn debygol o ymwneud tipyn llai â chi nag mewn blynyddoedd blaenorol, oherwydd Covid-19. Byddem yn gwerthfawrogi adroddiadau onest sy'n rhannu'ch profiad ar lawr gwlad.

Bydd eich adroddiad terfynol yn cynnwys:

- Gwerthusiad Naratif (yn edrych ar y llwyddiannau, yr heriau a'r gwersi a ddysgwyd)
- Adroddiad y Swyddfa Docynnau (gyda manylion unrhyw ddangosiadau a'r lefelau presenoldeb os yw hynny'n berthnasol)
- Cyllideb Incwm a Gwariant Gwirioneddol drwy'r holl gyfnod cyllido
- Data Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ymhlith cynulleidfaoedd (os yw'n berthnasol) ac Arolwg Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ymhlith staff mewnol
- Ffurflen Astudiaeth Achos (gan gynnwys delweddau a deunyddiau cyhoeddusrwydd)

Bydd y tîm Cynulleidfa ac Addysg hefyd yn cysylltu cyn ac yn ystod y prosiect i gynnig cymorth a chynghor ar gyfer y prosiect, a byddant yn ceisio ymweld â phob sefydliad sydd wedi'i gyllido os bydd hynny'n bosibl.

DIOGELU DATA

Bydd yr holl ddata a gaiff eu casglu fel rhan o'r broses Mynegi Diddordeb, y broses gais, a thrwy gydol y prosiectau llwyddiannus yn cael eu casglu'n unol â Pholisi Diogelu Data a Phreifatrwydd Ffilm Cymru Wales. Mae rhagor o wybodaeth am y polisi llawn [ar gael fan hyn](#).

MANYLION CYSYLLTU

Mae'r Gronfa Arddangoswyr Ffilmiau'n cael ei rheoli gan adran Cynulleidfa ac Addysg Ffilm Cymru.

NICOLA MUNDAY

Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg

nicola@ffilmcymruwales.com

NATASHA WILSON

Cydlynnydd Cynulleidfa ac Addysg

natasha@ffilmcymruwales.com

CWESTIYNAU CYFFREDIN

RYDW I'N GWEITHIO I AWDURDOD LLEOL, OES MODD IMI WNEUD CAIS?

Mae croeso i awdurdodau lleol wneud cais os ydynt yn gallu dangos angen a chysylltiad â'r sector celfyddydau a chreadigol ehangach. Rydym yn annog awdurdodau lleol i edrych ar ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau celfyddydol a ffilm sy'n bodoli'n barod.

SUT FATH O ARIAN CYFATEBOL Y GELLIR EI DDEFNYDDIO?

Gall arian cyfatebol fod yn gyllid o ffynonellau eraill, yn incwm, ac yn gymorth amser. Gall hefyd gynnwys cymorth gan wirfoddolwyr (pan fydd hynny'n briodol), llogi lleoliadau ac amser staff, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

BLE ARALL MAE MODD CAEL CYMORTH I DDANGOS FFILMIAU YNG NGHYMRU?

Mae nifer o sefydliadau sy'n gweithio yng Nghymru i gefnogi'r diwydiant ffilm:

- Canolfan Ffilm Cymru – rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI, sy'n cefnogi'r sector arddangos yng Nghymru.
- Into Film Cymru
- BAFTA

Ffilm Cymru Wales hefyd yw cartref Rhwydwaith BFI Cymru, ac mae gan y rhwydwaith nifer o gynlluniau sy'n helpu i gefnogi gyrfaedd gwneuthurwyr ffilmiau. Rydym yn argymhell cysylltu â'r tîm i drafod cyfleoedd i rwydweithio a digwyddiadau i wneuthurwyr ffilmiau.

BETH FYDD YN DIGWYDD OS BYDDA' I'N METHU'R DYDDIAD CAU NEU OS BYDD CYFLE'N YMDDANGOS Y TU ALLAN I ROWND GYLLIDO?

Os bydd amser yn brin, cysylltwch â nicola@ffilmcymruwales.com i drafod cais y tu allan i un o'r rowndiau ymgeisio. Mewn rhai sefyllfaoedd arbennig, os bydd Ffilm Cymru o blaid hynny, efallai y bydd yn bosibl cynnull cyfarfod eithriadol o'r panel.

ffilm

CYMRU WALES

WWW.FFILMCYMRUWALES.COM

TRAMSHED TECH
UNED 6
STRYD PENDYRIS
CAERDYDD
CF11 6BH



**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

